**Cwestiynau Cyffredin**

Gobeithiwn fod y dudalen hon yn ateb rhai o’ch cwestiynau ynglŷn â’r Gŵyl Caws Caerffili 2025.

Cofiwch fod rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefannau ni a'n tudalennau ni ar y cyfryngau cymdeithasol – www.caerphillycheesefestival.co.uk/cy / www.visitcaerphilly.com / **@VisitCaerphilly**

Os na allwch chi ddod o hyd i ateb i'ch cwestiwn ar y wefan, cysylltwch â digwyddiadau@caerffili.gov.uk neu 01443 866390.

1. **Beth yw oriau agor y digwyddiad?**

   Dydd Sadwrn 30 Awst, 10am – 7pm
   Dydd Sul 31 Awst, 10am – 5pm

2. **Oes tâl yn cael ei godi am fynd i mewn i'r digwyddiad?**

   Nac oes, mae mynediad **AM DDIM** i'r digwyddiad hwn.

3. **Ydy cŵn yn cael eu caniatáu?**

   **Ydy,** caniateir cŵn i fynychu'r digwyddiad, ac eithrio ardal y ffair hwyl. Caniateir cŵn tywys ym mhobman.

   Sylwer: Er bod croeso i gŵn yng Ngŵyl Caws Caerffili, rydyn ni'n cynghori perchnogion sy'n bwriadu dod â'u cŵn nhw i fod yn ofalus oherwydd y nifer uwch o bobl. Rydyn ni'n gofyn i berchnogion ystyried lles eu cŵn a mynychwyr eraill.

   Mae perchnogion sy'n dod â chŵn i ddigwyddiad yn gwneud hynny ar eu menter ac atebolrwydd eu hunain.

4. **Ble alla i ddod o hyd i'r stondinau caws, y neuaddau bwyd a'r ffair hwyl?**

   Mae'r stondinau caws, y neuaddau bwyd a'r ffair hwyl i'w cael yng nghefn Castell Caerffili ar hyd Heol y Cilgant. Gellir cyrraedd cefn y castell ar gyfer

gweithgareddau Gŵyl y Caws yn yr ardal honno o ganol y dref naill ai trwy Barc Dafydd Williams neu ar hyd Llwybr y Pysgotwyr o amgylch Castell Caerffili. Nid oes mynediad uniongyrchol trwy Gastell Caerffili.

**5. Oes cyfleuster parcio a theithio?**

Does dim cyfleuster parcio a theithio ar gyfer y digwyddiad, ond mae cyfleusterau parcio a cherdded **AM DDIM** yn y lleoliadau canlynol:

- Ysgol Gyfun Cwm Rhymni – Y Gwyndy, Heol Pontygwindy CF83 3HG
- Ysgol Martin Sant, Hillside CF83 1UW

**6. Pa drefniadau parcio sydd ar gael yn y digwyddiad?**

Yn ogystal â'r cyfleusterau parcio a cherdded am ddim uchod, mae meysydd parcio cyhoeddus ar gael yn y lleoliadau canlynol:

- Maes parcio Station Terrace, CF83 1HD (talu ac arddangos)
- Cyfleuster Parcio a Theithio Caerffili, CF83 1HD (am ddim)
- Maes parcio Crescent Road, CF83 1AB (talu ac arddangos)
- Morrisons/Canolfan Siopa Cwrt y Castell, CF83 1XP (am ddim, hyd at 3 awr)
- Parcio gorlif, Cae Chwaraeon Owain Glyndwr, CF83 1AB (am ddim, yn dibynnu ar y tywydd)

Gweler hefyd y map parcio ar **wefan Gŵyl Caws Caerffili** a **thudalen Gŵyl Caws Caerffili ar Facebook**, yn ogystal â **gwefan Croeso Caerffili** a'r tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n cynnwys lleoliadau mannau parcio i bobl anabl a lleoliadau rheseli beiciau.

**7. Oes tâl yn cael ei godi am fynd i mewn i Gastell Caerffili?**

Oes, mae tâl yn cael ei godi am ymweld â'r Castell yn ystod y digwyddiad.

| **Categori** | **Pris** |
|---|---|
| Aelod | AM DDIM |
| Oedolyn | £12.40 |
| Teulu | £40.00 |
| Pobl anabl a chydymaith | AM DDIM |
| Plant (Oed 5-17) / Myfyriwr | £8.60 |
| Pobl hŷn (Oed 65+) | £11.10 |

Am ragor o wybodaeth, **cliciwch yma**.

**8. Oes sioe tân gwyllt?**

**DOES DIM** sioe tân gwyllt yn y digwyddiad hwn.
Bydd y sioe tân gwyllt nesaf yn cael ei chynnal ar ôl **Gorymdaith Lusernau Afon y Goleuni, ddydd Gwener 21 Tachwedd 2025.**

**9. Pryd mae'r ffair hwyl ar agor?**

Dydd Sadwrn 30 Awst, 10am – 7pm
Dydd Sul 31 Awst, 10am – 5pm
Ar y ddau ddiwrnod, o 10am i 11am, bydd awr dawel yn y ffair hwyl heb unrhyw gerddoriaeth yn cael ei chwarae ar y reidiau.

**10. Oes modd i mi gael stondin yn y digwyddiad?**

I holi am faterion masnachu, anfonwch e-bost i **digwyddiadau@caerffili.gov.uk** neu ffoniwch 01443 866390.

**11. Pryd a ble mae'r adloniant?**

Bydd cerddoriaeth fyw ac adloniant ledled canol y dref ac y tu ôl i Gastell Caerffili. Mae'r holl raglenni adloniant ar gael ar wefan Gŵyl Caws Caerffili a gwefan Croeso Caerffili, a bydd gwybodaeth yn cael ei phostio ar dudalennau Gŵyl Caws Caerffili a Croeso Caerffili ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae 3 ardal gerddoriaeth yn y digwyddiad:

- Ardal A – Llwyfan y Foneddiges Werdd (Cardiff Road)
- Ardal B – Llwyfan Ffos y Castell (Crescent Road, y tu ôl i Gastell Caerffili)
- Ardal C – Prif Lwyfan y Tŵr Cam (Maes Parcio’r Twyn)

**12. Ydy alcohol yn cael ei ganiatáu?**

Does neb yn cael dod ag alcohol i'r digwyddiad Gŵyl Caws Caerffili. Bydd staff diogelwch yn monitro pob mynedfa ac yn sicrhau bod alcohol yn cael ei gymryd oddi ar unrhyw ymwelwyr sy'n ceisio dod ag alcohol i'r safle. Bydd modd prynu alcohol i'w yfed ar y safle yn y bariau yn Crescent Road ac ym maes parcio'r Twyn.Any alcohol bought in the food halls is for offsite consumption.

**13. Oes toiledau ar gael?**

Mae toiledau dros dro ledled safle'r digwyddiad, gyda hwb ym Maes Parcio’r Twyn.

Mae toiledau hefyd ar gael yn Llyfrgell Caerffili a Ffos Caerffili yn ystod oriau agor y safleoedd hyn.

Mae cyfleusterau toiledau cyhoeddus eraill i’w gweld ar y **Map Toiledau Cenedlaethol**.

**14. Oes peiriant codi arian parod?**

Mae peiriannau codi arian parod ar gael ar hyd Cardiff Road.

**15. Mae gen i gwestiwn sydd heb gael ei ateb yn y ddogfen hon.**

I holi am y digwyddiad yn gyffredinol, anfonwch e-bost i **digwyddiadau@caerffili.gov.uk** neu ffoniwch 01443 866390.